# YNGLŶN Â META-NET

Mae META-NET yn Rhwydwaith o Ragoriaeth a ariennir yn rhannol gan y Comisiwn Ewropeaidd. Ar hyn o bryd mae'r rhwydwaith yn cynnwys 54 canolfan ymchwil mewn 33 gwlad Ewropeaidd. Mae META-NET yn sefydlu META, Cynghrair Technoleg Amlieithog Ewrop, cymuned gynyddol o weithwyr proffesiynol a sefydliadau technoleg iaith yn Ewrop. Mae META-NET yn meithrin y seiliau technolegol ar gyfer cymdeithas gwybodaeth Ewropeaidd wirioneddol amlieithog sy'n:

- gwneud cyfathrebu a chydweithio yn bosibl ar draws ieithoedd;
- caniat áu mynediad cyfartal i bawb yn Ewrop i wybodaeth waeth beth yw eu hiaith;
- adeiladu ar swyddogaethau technoleg gwybodaeth wedi'i rhwydweithio ac yn adeiladu arni.

Mae'r rhwydwaith yn cefnogi Ewrop sy'n uno ar ffurf marchnad ddigidol sengl ac fel gofod gwybodaeth. Mae'n ysgogi ac yn hyrwyddo technolegau amlieithog ar gyfer pob iaith Ewropeaidd. Mae'r technolegau hyn yn cefnogi cyfieithu awtomatig, creu cynnwys, prosesu gwybodaeth a rheoli gwybodaeth ar gyfer amrywiaeth eang o feysydd pwnc a rhaglenni. Maent hefyd yn galluogi rhyngwynebau greddfol sy'n seiliedig ar dechnoleg iaith yn amrywio o offer electroneg y cartref, i beiriannau a cherbydau i gyfrifiaduron a robotiaid. Lansiwyd META-NET ar 1 Chwefror 2010; ac mae eisoes wedi cynnal gweithgareddau amrywiol yn ei thair llinell gweithredu META-VISION, META-SHARE a META-RESEARCH.

Mae **META-VISION** yn meithrin cymuned rhanddeiliaid ddeinamig a dylanwadol sy'n uno o gwmpas gweledigaeth ranedig ac agenda ymchwil strategol gyffredin (SRA). Prif ffocws y gweithgaredd hwn yw adeiladu cymuned technoleg iaith gydlynol yn Ewrop drwy ddod â chynrychiolwyr o grwpiau rhanddeiliaid amrywiol ac wedi eu ffragmenteiddio. Paratowyd y Papur Gwyn cyfredol ynghyd â chyfrolau ar gyfer 30 o ieithoedd eraill. Datblygwyd y weledigaeth am dechnoleg wedi'i rhannu Grŵp Gweledigaeth sectoraidd. Sefydlwyd Cyngor Technoleg META er mwyn trafod a pharatoi'r SRA yn seiliedig ar y weledigaeth, a hynny wrth ryngweithio'n agos gyda'r gymuned technoleg iaith yn ei chyfanrwydd.

Mae **META-SHARE** yn creu cyfleuster agored, wedi'i ddosbarthu, ar gyfer cyfnewid a rhannu adnoddau. Bydd y rhwydwaith cymar-i-gymar o storfeydd yn cynnwys data, offer a gwasanaethau ieithyddol a gwasanaethau gwe wedi eu dogfennu gyda metaddata o ansawdd uchel ac wedi'i drefnu'n gategorïau safonol. Bydd modd hawdd ac unffurf o chwilio'r adnoddau hyn ac o gael mynediad iddynt. Mae'r adnoddau yn cynnwys deunyddiau rhad ac am ddim, cod agored yn ogystal ag eitemau cyfyngedig, sydd ar gael yn fasnachol, yn seiliedig ar ffioedd.

Mae **META-RESEARCH** yn codi pontydd i feysydd technoleg cysylltiedig. Mae'r gweithgaredd hwn yn ceisio godro datblygiadau mewn meysydd eraill gan fanteisio ar ymchwil arloesol a all fod o fudd technoleg iaith. Yn benodol, mae'r llinell gweithredu hon yn canolbwyntio ar gynnal ymchwil flaengar mewn cyfieithu awtomatig, casglu data, paratoi setiau data a threfnu adnoddau iaith at ddibenion gwerthuso; llunio rhestri o offer a dulliau, a threfnu gweithdai a digwyddiadau hyfforddi ar gyfer aelodau o'r gymuned.

**office@meta-net.eu – http://www.meta-net.eu**